



## Unedau cyfeirio disgyblion

### Cwestiynau hunanfyfyrto i gynorthwyo UCDAu i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru

Mae gormod o amrywioldeb ym mharodrwydd UCDAu ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Gallai'r ystyriaethau canlynol eich helpu i feddwl am ba mor dda y gwneir hyn yn eich UCD chi:

- Pa mor effeithiol yw'r gweithgareddau rydych yn eu cynllunio i ddatblygu disgyblion fel:
  - dysgwyr uchelgeisiol, galluog?
  - cyfranwyr mentrus, creadigol?
  - dinasyddion egwyddorol, gwybodus?
  - unigolion iach, hyderus?
- I ba raddau ydych chi wedi sicrhau eich bod yn cynnig cwricwlwm sy'n berthnasol i bob disgybl, gan gynnwys disgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn gymdeithasol ac yn economaidd?
- Pa mor sicr yw trefniadau'ch cwricwlwm i ddisgyblion wrth iddynt bontio o neu i ysgolion prif ffrwd?
- Pa mor dda ydych chi'n cynllunio dilyniant i ddysgwyr?
- Sut byddwch chi'n gwybod a fu eich dulliau newydd yn llwyddiannus?

### Cwestiynau hunanfyfyrto i gynorthwyo UCDAu i fynd i'r afael ag absenoldebau parhaus

Mae absenoliaeth barhaus yn parhau i fod yn her mewn UCDAu ac mae presenoldeb islaw'r lefelau cyn y pandemig o hyd.

- Pa mor effeithiol yw eich trefniadau i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â phresenoldeb, yn enwedig i ddisgyblion sy'n absennol yn barhaus?
- Pa mor effeithiol yw mae dysgu proffesiynol yn cefnogi lles disgyblion, yn enwedig o ran trawma ac iechyd meddwl?